*Grŵp gorchwyl a gorffen*
Pwyllgor Amgylchedd a Chynaladwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# YMCHWILIAD I DDIWYGIADAU ARFAETHEDIG Y COMISIWN EWROPEAIDD I'R POLISI AMAETHYDDOL CYFFREDIN

Ymateb gan

Partneriaeth Economaidd Gwynedd

Cyngor Gwynedd

*04 Tachwedd 2011*

Ymchwiliad i ddiwygiadau arfaethedig i'r Polisi Amaethyddol Cyffredin

# YMATEB PARTNERIAETH ECONOMAIDD GWYNEDD A CHYNGOR GWYNEDD

## 01. Cyflwyniad

01.1. Gwerthfawrogir yn fawr y cyfle i gynnig sylwadau ar ddiwygiadau arfaethedig y Comisiwn Ewropeaidd i'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy law'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaladwyedd.

01.2. Lluniwyd a chyflwynir y sylwadau hyn ar y cyd gan Bartneriaeth Economaidd Gwynedd (PEG) a Chyngor Gwynedd. Mae'r sylwadau hyn hefyd yn adlewyrchu ac yn ategu nifer o sylwadau Cymdeithas Llywodraeth Lleol Cymru.

01.3. Mae PEG yn bartneriaeth agored a chynhwysol sy'n hwyluso cydweithio er mwyn sicrhau dyfodol llewyrchus i bobol, cymunedau a busnesau Gwynedd. Yn ogystal â hybu datblygiad economaidd y sir, mae PEG yn gyfrifol am Echel 3 a 4 Cynllun Datblygu Gwledig Cymru yng Ngwynedd ac mae'n cynnal gorolwg ehangach o'r Cronfeydd Ewropeaidd sy'n weithredol yn y sir gan gynnwys y Rhaglen Cydgyfeirio (ceir amlinelliad o weithgaredd y Bartneriaeth yn ei adroddiad blynyddol ac ar ei safle gwe www.economigwynedd.gov).

01.4. Cyngor Gwynedd yw Awdurdod Lleol sir Gwynedd sy'n gyfrifol, ymysg pethau eraill, am ddatblygu ffyniant economaidd y sir (gweler www.gwynedd.gov.uk am wybodaeth bellach am waith y Cyngor). Yn ogystal â'i weithgaredd craidd o fewn y meysydd sgiliau, cefnogi busnes, twristiaeth ac adfywio cymunedol a strategol; mae'r Cyngor yn gyfrifol am weithredu Echel 3 a 4 Cynllun Datblygu Gwledig Cymru yng Ngwynedd ac yn gyfrifol am reoli nifer o gynlluniau sylweddol sy'n derbyn arian Ewrop drwy law'r Rhaglen Cydgyfeirio.

01.5. Gwynedd yw'r ail sir fwyaf yng Nghymru ac mae rhan helaeth o'r sir yn wledig, gyda dwysedd poblogaeth o ddim ond 25 person y $km^2$ y tu allan i'r prif drigfannau a 78% o'r sir yn dir amaethyddol gyda chanran uchel yn dir pori mynyddyg. Mae arwyddocâd amaeth yng Ngwynedd yn parhau i fod yn sylweddol iawn yn amgylcheddol, yn ddiwylliannol, yn gymdeithasol ac yn economaidd; gyda chyfraniad uniongyrchol y diwydiant i Gwerth Ychwanegol Crynswth dros 230% yn uwch na chyfartaledd Cymru a bron i 5,000 o drigolion y sir yn amaethwyr neu'n weithwyr amaethyddol llawn / ran amser.

01.6. O ganlyniad, mae'r PAC yn allweddol bwysig i'r sir; yng nghyswllt y buddsoddiad uniongyrchol yn natblygiad gwledig a'r budd ehangach sy'n deillio o'r gefnogaeth mae'r diwydiant amaeth yn ei dderbyn o Ewrop. Darperir sylwadau PEG a Chyngor Gwynedd yn y cyd-destun yma a'n gwerthfawrogiad o oblygiadau posib newidiadau i'r PAC i ffyniant y sir

## 02. Beth allai cynigion y Comisiwn Ewropeaidd ei olygu i Gymru?

02.1. Cydnabyddir nad yw'r sail bresennol ar gyfer taliadau uniongyrchol i amaethwyr yn gynaliadwy i'r dyfodol ond pryderwn y gallai newidiadau i'r drefn effeithio ar amaethwyr a'r economi wledig yn ehangach. Yn hyn o beth, dylid sicrhau yr hyblygrwydd mwyaf bosib i sicrhau fod unrhyw newidiadau yn digwydd dros gyfnod priodol. Hoffem hefyd erfyn ar Llywodraeth Cymru i gynnal ymchwil manwl cyn gynted a phosib i effeithiau tebygol y newidiadau ar y diwydiant amaeth a'r economi wledig ar hyd a lled Cymru, yn arbennig yng nghyswllt y newidiadau i daliadau ar gyfer tiroedd gwael, er mwyn sicrhau fod mesurau priodol i leddfu unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu llunio.

02.2. Croesawir yn fras y bwriad i ddefnyddio taliadau uniongyrchol i gefnogi gweithgareddau penodol megis amaeth gwyrdd ac anogaeth i amaethwyr ifanc. Fodd bynnag, dylid sicrhau fod hyblygrwydd gan ranbarthau i ddewis a dethol y pwyslais a roddir i elfennau unigol i adlewyrchu amgylchiadau rhanbarthau unigol. Yn y cyswllt yma dylid, er enghraifft, sicrhau fod sgil effaith tirwedd Cymru ac anghenion penodol ffermydd mynydd yn derbyn cydnabyddiaeth.

02.3. Cefnogir y bwriad i barhau i gynnal dau Piler i'r PAC gan sicrhau fod adnoddau penodol i ddatblygu cynaladwyedd a cystadleurwydd ardaloedd gwledig. Ond, dylid ceisio sicrhau cadarnhad fod yr adnoddau hyn i'w targedu i ardaloedd sydd o dan anfantais gystadleuol o ganlyniad i'w hymyled ac i'w defnyddio i ymateb i anghenion *ychwanegol* ardaloedd gwledig y tu hwnt i'r ddarpariaeth drwy law'r Cronfeydd Strwythurol.

02.4. Croesewir hefyd y bwriad i sicrhau gwell cydlyniad rhwng yr EAFRD a chronfeydd eraill. Credir y gellir sicrhau budd ychwanegol i ardaloedd gwledig o ganlyniad i sicrhau fod yr holl gronfeydd yn gweithio tuag at nod cyffredin. Mae PEG a'r Cyngor hefyd yn cefnogi'n gryf y bwriad i sicrhau gwell cydlynu ar y lefel leol drwy law partneriaethau a strategaethau cyffredin.

02.5. Cefnogir bwriad y Comisiwn i ddiddymu'r trefniant presennol o Echelau ar gyfer y maes datblygu gwledig. Credir y bydd y trefniant newydd o weithredu o fewn amcanion yn cynnig cyfle i sicrhau gwell cydlynu ar draws meysydd gwaith ynghyd a hyblygrwydd i ddatblygu gweithgareddau sy'n briodol i amgylchiadau unigryw ardaloedd lleol. Yn hyn o beth, dylid sicrhau fod pwysigrwydd cynhyrchiant amaethyddol a'r diwydiant amaeth yn derbyn cydnabyddiaeth eang o fewn yr amcanion.

02.6. Croesewir y bwriad i barhau gyda'r cysyniad LEADER fel rhan o'r ymdrech i sicrhau dyfodol llewyrchus a chynaliadwy i ardaloedd gwledig, gan y credwn fod rôl bwysig i weithgaredd yn deillio o lawr gwlad wrth gyflawni newid gwirioneddol. Hoffem annog fod trafodaeth yn cael ei gynnal yn fuan yng Nghymru i sicrhau fod gweledigaeth gytûn o'r dull gweithredu LEADER yn cael ei fabwysiadu gan arwain at ddatblygu strwythurau addas i'w gefnogi.

02.7. Cefnogir cydnabyddiaeth y rheoliadau i rôl allweddol partneriaid ar y lefel leol i gynllunio a chyflawni'r rhaglenni. Cred PEG a'r Cyngor yn gryf mai ar y lefel leol ceir dealltwriaeth wirioneddol o anghenion ardaloedd unigol a, thrwy hynny, sut i gyflawni amcanion strategol. Hoffem erfyn ar Llywodraeth

Cymru i sicrhau fod partneriaid lleol yn chwarae rôl lawn yn natblygiad Cynllun Datblygu Gwledig Cymru ar gyfer y cyfnod wedi 2013.

03. Beth ddylai fod y flaenoriaeth i Llywodraeth Cymru wrth gynnal trafodaethau ar ddiwygio'r PAC er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau i Gymru?

03.1. Ym marn PEG a'r Cyngor y flaenoriaeth bennaf i Llywodraeth Cymru yn eu trafodaethau yw sicrhau fod Cymru'n atebol yn uniongyrchol i'r Comisiwn Ewropeaidd am reolaeth a pherfformiad y rhaglenni'n weithredol yma. Byddai sicrhau Cytundeb Partneriaeth yn uniongyrchol gyda'r Comisiwn yn sicrhau mai anghenion a blaenoriaethau Cymru fydd yn cael sylw ac yn atal unrhyw wanhad o'n hachos o fewn darlun ehangach y DU.

03.2. Y tu hwnt i hyn, y flaenoriaeth yw sicrhau fod rheoliadau'r Comisiwn yn caniatáu hyblygrwydd digonol i adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau unigol Cymru a'r ardaloedd lleol o fewn Cymru.

03.3. Yn olaf, dylid sicrhau fod dymuniad y Comisiwn i symleiddio'r trefniadau yn gysylltiedig â chyllid Ewropeaidd yn cael ei wireddu ac yn treiddio i lawr i'r lefel gweithredol, er mwyn sicrhau fod egni ac ymdrech yn cael ei ganolbwyntio ar gyflawni yn hytrach na gweinyddu.

04. Sut all Cymru sicrhau fod ei farn yn llywio'r broses drafod?

04.1. I sicrhau fod llais Cymru'n cael sylw bydd yn allweddol sicrhau fod egni ac ymdrechion holl sefydliadau a sectorau Cymru yn cael eu cydlynu i gyfleu nifer fechan o negeseuon allweddol. Yn hyn o beth, croesewir ymchwiliad grŵp gorchwyl a gorffen y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaladwyedd yn fawr, fel cam cyntaf i sicrhau cytundeb bras ar y negeseuon allweddol.

04.2. Bydd PEG a Chyngor Gwynedd yn barod i chwarae rôl briodol yn cynorthwyo'r ymdrech i sicrhau fod llais Cymru yn derbyn sylw.

Am wybodaeth bellach:

Dylan Griffiths
Gwasanaeth Strategaeth a Datblygu / Ysgrifenyddiaeth PEG
Adran Economi a Chymuned
Cyngor Gwynedd
Swyddfeydd y Cyngor; Caernarfon, LL55 1SH

E-bost: dylanrhysgriffiths@gwynedd.gov.uk Ffôn: 01286 679611

Adran Economi a Chymuned / Partneriaeth Economaidd Gwynedd
Cyngor Gwynedd, Caernarfon LL55 1SH

t: 01286 679343 e: strategaethadatblygu@gwynedd.gov.uk / peg@gwynedd.gov.uk

www.gwynedd.gov.uk/ewrop www.gwynedd.gov.uk/europe
www.economigwynedd.info www.gwyneddeconomy.info